# PANEL APÊL CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL YR AELODAU
## 1 MAWRTH 2017

**Yn bresennol:** **Y Cynghorydd G.O. Jones (Cadeirydd)**

**Y Cynghorydd:** **D.J.R Llewellyn**

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**

Mr. S. Pilliner – Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd
Ms. L. McFarlane – Swyddog Polisi a Datblygu Teithio gan Ddysgwyr
Ms. K. Morris – Cyfreithiwr Cynorthwyol
Mr. M. Hughes – Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd

**Lleoliad:** Ystafell Pwyllgorau 2, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin (10:55 – 11:10yb)

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd H.A.L. Evans a chydymdeimlodd y Cadeirydd â'r Cynghorydd Evans a'i theulu, yn dilyn marwolaeth ei mam yn ddiweddar.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

### 3. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

### 4. I YSTYRIED APEL GAN YMGEISYDD O.G.E. YNH ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO A DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.

Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r ymgeisydd. Er y byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses gwneud penderfyniad, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, am fod angen diogelu hunaniaeth yr ymgeisydd a'i deulu/theulu.

Croesawodd y Cadeirydd swyddogion o'r Gwasanaethau Cyfreithiol ac Adran yr Amgylchedd i'r cyfarfod.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried sylwadau ysgrifenedig yr apelydd mewn perthynas â phenderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod darparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer O.G.E gan nad yr ysgol honno oedd yr un agosaf nac ychwaith ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer cyfeiriad y cartref, ac nad oedd felly'n cydymffurfio â'r meini prawf ym mholisi'r Cyngor ar gyfer rhoi cymorth.

Ystyriodd y Panel sylwadau'r swyddogion adrannol a gofynnwyd am eglurhad ynghylch elfennau o Bolisi yr Awdurdod o ran Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol ynghyd ag amgylchiadau unigol yr achos.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** fod yr apêl yn cael ei chadarnhau oherwydd amgylchiadau unigol eithriadol yr achos.

**LLOFNODWYD:** ______________________________ (Cadeirydd)

**DYDDIAD:** ______________________________